S4/C

# Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2008

---

## Cyflwyniad

Dyma Adolygiad Awdurdod S4C o berfformiad gwasanaethau cyhoeddus S4C yn erbyn Datganiad Polisi Rhaglenni 2008. Paratowyd yr Adolygiad hwn yn unol â gofynion paragraff 4(1)(b) o Atodiad 2 Deddf Gyfathrebiadau 2003. Mae'r Adolygiad yn seiliedig ar amcanion Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2008.

Roedd y Datganiad yn nodi y byddai S4C yn parhau i ddatblygu a buddsoddi yn y ddarpariaeth i blant ac yn ddibynnol ar ganlyniadau Ymgynghoriad Awdurdod S4C i wasanaethau ar gyfer plant. Gwireddwyd y bwriad. Roedd 2008 yn flwyddyn hanesyddol i Wasanaeth Rhaglenni a Chynnwys S4C wrth i **Cyw,** y gwasanaeth meithrin newydd, gael ei lansio. Gwelwyd cynnydd yn y ddarpariaeth feithrin o un awr i chwe awr a hanner y dydd, bum diwrnod yr wythnos a daeth nifer o gymeriadau a rhaglenni newydd sbon i'r sgrin.

Yn unol â'r Datganiad Polisi Rhaglenni, cafodd 2008 ei dynodi'n Flwyddyn Werdd gan S4C ac roedd sawl uchafbwynt i'r tymor arbennig hwn, yn eu plith **Natur Cymru**, **Yr Afon** a **Byw yn Ardd.**

Roedd addewid i ddefnyddio llwyfannau dosbarthu priodol gyda phwyslais ar fandllydan er mwyn cynyddu gwerth a'r defnydd o gynnwys S4C. Ym mis Medi lansiwyd **S4/Clic** - gwasanaeth gwylio ar-lein y sianel a adeiladodd ar y gwasanaeth gwylio eto, a gyflwynwyd yn 2006. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd blwyddyn ar flwyddyn o 182% yn y sesiynau gwylio ar-lein yn ystod 2008 i gymharu â 2007.

Uchelfan ar y sgrin ac ar y meysydd chwarae yn 2008 oedd llwyddiant tîm rygbi Cymru yn ennill y Gamp Lawn. Cafodd yr holl hwyl asbri eu hadlewyrchu yn **Y Clwb Rygbi** ac yng **Nghyngerdd Dathlu'r Grand Slam**.

Daeth rhaglenni'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd â diweddglo haeddiannol i'r flwyddyn. Llwyddodd rhaglenni megis y ffilmiau **Martha Jac a Sianco** a **Nadolig Plentyn yng Nghymru,** yn ogystal â rhaglenni cerddorol o'r safon uchaf i gyfrannu at gynnydd yn ein gwylwyr dros y cyfnod a phroffil iau i'r gynulleidfa o'i gymharu â 2007. Ac yn gyffredinol bu cynnydd o 7% flwyddyn-ar-flwyddyn yn ffigyrau gwylio S4C yn yr oriau brig yn 2008. Rhain yw ffigyrau uchaf y Sianel yn yr oriau brig ers 2002.

Ym mis Tachwedd lansiwyd Strategaeth Cynnwys S4C. Mae'r Strategaeth hon, sy'n adeiladu ar Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol 2004, wedi ei llunio ar gyfer y cyfnod sy'n pontio dechrau a diwedd y broses o newid i ddigidol.

## Plant

Roedd 07.00 fore Llun, Mehefin 23 yn garreg filltir bwysig yn hanes S4C wrth i wasanaeth newydd **Cyw** ar gyfer plant meithrin gychwyn, yn dilyn ymgyrch gyfathrebu eang. Lansiwyd gwefan gynhwysfawr ddwyieithog fel rhan o'r gwasanaeth sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau difyr i blant meithrin a'u rhieni. Mae **Cyw** wedi cael croeso gwresog tu hwnt. Mae ein ymchwil yn nodi fod y mwyafrif o'r farn fod y gwasanaeth wedi cwrdd neu wedi mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau.

Cyflwynwyd dwy gyfres newydd sbon fel rhan o arlwy cychwynnol **Cyw** sef **Heini** ac **Igi, Tigi, Bip a Bop**. Cyfres hwyliog ryngweithiol sy'n hybu byw'n iach a chadw'n heini i blant bach yw **Heini**. Cerddoriaeth a chanu, symud a dawnsio yw canolbwynt rhaglenni **Igi, Tigi, Bip a Bop**. Ar gyfer tymor y gaeaf daeth cyfresi newydd pellach, gyda'r cynnwys yn gweddu'r Cyfnod Sylfaen newydd a gyflwynwyd gan y Cynulliad ar gyfer addysg feithrin ym mis Medi eleni, sef Dysgu trwy Chwarae. Mae **ABC** yn cyflwyno llythrennau'r wyddor, ac **Yn yr Ardd** yn dangos yr ardd i blant meithrin gan roi sylw i faterion amgylcheddol fel ail-gylchu a byw'n wyrdd. Mae **Gorsaf Hud** yn gyfle i blant gael hwyl wrth ddefnyddio'r dychymyg. Roedd cyfres newydd o'r animeiddiad **Holi Hana**. Dyma ail gyfres y rhaglen boblogaidd hon a enillodd wobr Bafta Cymru a'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd 2008 am y rhaglen animeiddio orau. Roedd ail gyfres hefyd o **Meees**. Dyma'r cyd-gynhyrchiad cyntaf gyda JCC ar gyfer Al Jazeera a'r rhaglen feithrin gyntaf S4C i'w chynhyrchu mewn Manylder Uwch.

Ar gyfer plant hŷn daeth cyfres **Ffit 100%** i olynu **Rygbi 100%.** Bwriad **Ffit 100%** yw defnyddio portreadau o wahanol gampau i fod yn gerbyd i ddatblygu diddordeb plant yn y campau a'u hannog i gymryd rhan. Mae'r gyfres newydd **Concro'r Cwm** yn cynnwys tîm o blant hŷn o'r gogledd yn herio tîm o'r de mewn gornestau awyr agored sy'n profi'r gallu i gyfathrebu fel tîm. Mae **Stamina** a **Chwa** yn rhoi sylw arbennig i chwaraeon eithafol ac mae cyfle i dimau o ysgolion ledled Cymru brofi eu gwybodaeth chwaraeon yn y cwis **Pencampau**.

Cyfres newydd sbon arbenigol yn ymwneud â theclynnau yw **Y Garej**. Y bwriad yw rhoi cyfle i blant adolygu a defnyddio'r offer diweddaraf. Cafwyd ail gyfres o'r rhaglen wyddonol **Atom** a'r **Sioe Wyllt** sy'n edrych ar fyd natur. Roedd **Herio'r Ddraig** yn rhaglen yn llawn sialensiau a chafwyd cyfresi newydd o **Stwffio**, **Y Fet a Fi**, **Popty** a **Hip neu Sgip**. Roedd rhagor o bwyslais eleni yn **Hip neu Sgip** ar waredu llai i'r sgip ac ail-gylchu mwy, oedd yn cyd-fynd â thymor o raglenni gwyrdd y Sianel.

Rhaglen gylchgrawn stiwdio bob Mawrth ac Iau yw **Mosgito**. Mewn ymateb i ymchwil cynnar ar y gyfres mae'r rhaglen hon wedi ei datblygu yn ystod y flwyddyn gan ehangu ei hapêl i'r oedran darged ac ymdrin â phynciau sydd o ddiddordeb i bobl ifanc mewn ffordd adloniadol. Mae gwylwyr yn cyfrannu'n rheolaidd i'r pynciau dan sylw, unai yn y stiwdio, ar leoliad neu drwy gyfrwng y we.

Cyflwynwyd newidiadau i batrwm darlledu **Uned 5** er mwyn cryfhau'r arlwy i blant hŷn rhwng 18.00 a 19.00. Mae'r rhaglen bellach yn cael ei darlledu ar nos Fercher yn ogystal â nos Wener. Mae rhaglen nos Wener yn adloniadol gan roi cychwyn hwyliog i'r penwythnos gyda bandiau byw a cherddoriaeth gyfoes. Ar nos Fercher mae'r cyflwynydd a chriw o bobl ifanc yn trafod pynciau cyfredol. Cafwyd rhaglenni arbennig hefyd gan dîm **Uned 5** dros y Nadolig, sef **Mari ar y Carped Coch** a **Gwobrwyo'r Goreuon.**

## **Digwyddiadau**

Mae ein gwaith ymchwil eleni eto yn nodi fod y gynulleidfa o'r farn bod amrywiaeth eang o ddigwyddiadau arbennig ar S4C, ac mai S4C yw'r brif sianel ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru. Yn wir mae'n hymchwil yn dangos fod nifer sylweddol o bobl nad sy'n arfer gwylio S4C yn gwneud ymdrech i wylio digwyddiad arbennig ar y Sianel. Roedd ein gwasanaeth o'r **Sioe Frenhinol** eleni eto yn gynhwysfawr iawn a hynny ar y teledu ac ar y we. Rhoddwyd dewis o lwyfannau gwylio i geisio diwallu gwahanol anghenion. Yn ogystal â'r rhaglenni arferol yn y bore, prynhawn a nos ar ddigidol ac analog roedd modd edrych ar ddigwyddiadau'r prif gylch yn unig ar S4C2. Yn yr un modd, yr ail gylch drwy gyfrwng y Botwm Coch, lle'r oedd cyd-weithio agos gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Rhoddwyd rhagor o bwyslais eleni ar raglenni'r nos o'r **Ffair Aeaf** gyda rhaglen awr yn cael ei chyflwyno oddi yno ar y nos Lun er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf.

Darlledwyd 110 awr o raglenni amrywiol o **Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Sir Conwy**. Darparwyd deunydd helaeth a chynhwysfawr ar y we, gyda gwybodaeth a chanlyniadau'r rhagbrofion a'r cystadlaethau'n cael eu diweddaru'n gyson. Roedd modd gwylio'r cystadlu yn fyw ar fand llydan a darparwyd gwasanaeth tecst ar gyfer canlyniadau yn rhad ac am ddim. Ar draws y rhaglenni byw a'r uchafbwyntiau o **Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch** bu cynnydd o 5% yn nifer y gwylwyr y llwyddodd ein darllediadau eu cyrraedd, o 404,000 yn 2007 i 424,000 yn 2008. Unwaith eto roedd **Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen** yn un o brif ddigwyddiadau ac uchelfannau cerddorol S4C.

Cafwyd tair rhaglen o **Ŵyl Jazz Aberhonddu** oedd yn cyfrannu'n helaeth at yr amrywiaeth o fewn ein harlwy gerddorol. Cynhaliwyd nawfed **Gwŷl y Faenol** ym mis Awst gyda Bryn Terfel a'i lu o westeion. Ni lwyddodd y rhaglenni o'r Faenol ddenu nifer cystal o wylwyr â'r blynyddoedd a fu. Rydym yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu apêl a chyrhaeddiad yr Ŵyl ar gyfer y dyfodol. Darlledwyd dros wyth awr o gystadlu o'r **Ŵyl Cerdd Dant** yn Theatr Pafiliwn Y Rhyl ym mis Tachwedd yn ogystal â rhaglen arbennig o **Talwrn y Beirdd** o Gastell Rhuthun.

Yn sicr un o lwyddiannau'r flwyddyn oedd y darllediad o un o ddigwyddiadau mawr Cymru sef **Cyngerdd Dathlu'r Grand Slam** o Stadiwm y Mileniwm gydag artistiaid amrywiol fel y Stereophonics, Ruth Jones, Dafydd Iwan a Rhydian Roberts. Denodd y cyngerdd gynulleidfa o 236,000 ac roedd yn brawf o'n gallu i fod yn hyblyg ac ymateb yn gyflym i ddigwyddiad o bwys. Aled Myrddin a'i gân Atgofion oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth **Cân i Gymru** o Ganolfan Lido Afan, Port Talbot dros gyfnod Gŵyl Dewi. Dros y tair blynedd ddiwethaf gwnaed ymdrech i foderneiddio'r gystadleuaeth a chodi safon. Roedd y nifer a wyliodd yn 2008 68% yn uwch na'r nifer a wyliodd yn 2006.

## Chwaraeon

Roedd 2008 yn flwyddyn fythgofiadwy i chwaraeon yng Nghymru a thrwy gyfrwng ein rhaglenni chwaraeon amrywiol cafodd y cyffro hwn ei gyfleu i'r gynulleidfa. Llwyddodd ein gemau byw a'n darpariaeth o sawl digwyddiad chwaraeon o bwys i gryfhau ein strategaeth o fod yn gartref naturiol i ddigwyddiadau mawr Cymreig. Rygbi a phêl-droed yw ein prif chwaraeon ac ym Medi 2008 cyflwynwyd trac sain Saesneg trwy gyfrwng y botwm coch ar gemau lle'r oedd hawliau'n caniatáu er mwyn croesawu a chyflwyno arlwy S4C i wylwyr newydd a llai cyfarwydd â'r Sianel. Gwnaed penderfyniad i ymestyn hyd ein darllediadau o **Bencampwriaeth y Chwe Gwlad** er mwyn caniatáu rhagor o drafod a dadansoddi ar ôl y gêm. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y gwylio a chyrhaeddiad uwch. Dilynwyd yr un patrwm yn ein darllediadau o **Gemau Rhyngwladol yr Hydref**. Fel rhan o'r Cynllun Rhaglenni dan y Bartneriaeth Strategol, BBC Cymru sydd hefyd yn darparu ein gwasanaeth o gystadlaethau **Cynghrair Magners**, **Uwch Gynghrair y Principality** a **Chwpan Konica Minolta**. Mae'r gemau hyn wedi cyfrannu'n helaeth at gyrhaeddiad ein rhaglenni gyda 36 yn cael cyrhaeddiad o dros 100,000. Yn ystod Haf 2008 sicrhawyd yr hawliau ar gyfer y prif ddigwyddiad rygbi yng Nghymru am y cyfnod hwnnw, sef **Pencampwriaeth Ieuenctid y Byd**. Roedd ffigyrau cyrhaeddiad uchel i'r gêm gynderfynol rhwng Cymru a Seland Newydd, sef 245,000. Cafwyd uchafbwyntiau yn yr un cyfnod o daith y tîm cenedlaethol i Dde Affrica.

O ran pêl-droed roedd 2008 yn flwyddyn fawr i S4C wrth i'r Sianel sicrhau'r hawliau i Uwch Gynghrair Pêl-droed Cymru, Cwpan Cymru ac uchafbwyntiau gemau cartref y tîm cenedlaethol. Penderfynwyd adeiladu ar lwyddiant brand **Sgorio** a'i ehangu trwy'r holl ddarpariaeth pêl-droed. Dangoswyd dwy o gemau oddi cartref y tîm cenedlaethol sef y gemau cyfeillgar yn erbyn Gwlad yr Iâ a Lwcsembwrg, y ddwy'n llwyddo i ddenu cyrhaeddiad uchel o dros 200,000.

Gydag un o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd ar y gorwel yng Nghymru wrth i Gwpan Ryder 2010 gael ei gynnal ar gwrs y Celtic Manor aed ati i ddatblygu a lansio arlwy golff y Sianel. Mae'r gyfres **Golffio** yn cyfuno chwarae cystadleuol a mwynhad, y rhyngwladol a'r lleol dan arweiniad y tîm cyflwyno o Jonathan Davies, Dewi 'Pws' Morris a Llinos Lee. Gan fod sicrhau'r hawliau ar gyfer cylchdeithiau'r PGA wedi bod yn broses hir, chafwyd mo'r ffenestr ddigonol i gynnal ymgyrch farchnata briodol er mwyn sicrhau'r gynulleidfa botensial a newydd.

Digwyddiadau o bwys yn y gogledd sy'n rhan o'n harlwy chwaraeon yw **Marathon Eryri** a **Ras yr Wyddfa**. Ac er gwaetha'r tywydd garw ar gyfer y marathon heriol llwyddodd y cynhyrchiad i adlewyrchu ac ail-greu drama'r cystadlu trwy'r uchafbwyntiau cyffrous ac eitemau apelgar gan ddenu cynulleidfa sylweddol. Pencampwriaeth Fyd arall ddaeth i Gymru eleni oedd y **Treialon Cŵn Defaid** ym Mro Dinefwr. Fe'i darlledwyd eto fel rhan o'r strategaeth i adlewyrchu digwyddiadau yng Nghymru. Ni phrofodd ein cyfresi **Rasus** a **Rasus ar Garlam** yr un llwyddiant â'r blynyddoedd blaenorol o ran nifer y gwylwyr ac ymateb y gynulleidfa. Roedd hi'n siom hefyd fod y tywydd gwael wedi arwain at golli uchafbwynt y tymor rasus, sef **Rasus Tregaron**. Yn ein darpariaeth o Bencampwriaeth Ralio'r Byd yn y gyfres **Ralïo**, penderfynwyd creu uchafbwynt trwy ddangos rhaglenni nosweithiol o Rali GB Cymru. Profodd hyn eto fod cynhyrchu rhaglenni am brif ddigwyddiadau chwaraeon Cymru yn boblogaidd iawn gyda gwylwyr y Sianel. Fe fydd y gyfres **Ralïo** yn 2009 yn cael ei haddasu i adlewyrchu rhagor o ddigwyddiadau a chynnwys lleol a Chymreig.

## Newyddion a Materion Cyfoes

Mae'r rhaglen nosweithiol **Newyddion** a'r **Bwletinau Newyddion** yn rhan o'r Cynllun Rhaglenni a gytunwyd o dan y Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC. Darlledwyd dros 230 o raglenni **Newyddion** yn ystod yr oriau Cymraeg a thros 175 awr yn yr oriau brig. Mae'r ddau ffigwr yn uwch na thargedau Ofcom. Darlledwyd dros ddwywaith yr hyn sy'n ofynnol gan Ofcom o raglenni materion cyfoes yn yr oriau brig hefyd. Roedd y rhain o fwy nag un ffynhonnell gynhyrchu er mwyn sicrhau plwraliaeth. Eto, fel rhan o'r Cynllun Rhaglenni bu i'r BBC ddarparu cyfresi **Taro 9**, **Pawb a'i Farn**, **Ffeil**, **Yr Wythnos** ac **CF99**.

Crwydrodd **Pawb a'i Farn** i sawl cwr o Gymru ac i Lerpwl i wahodd y cyhoedd i gyfrannu at drafodaethau cyfredol yr wythnos. Ac edrychodd **Taro 9** ar bynciau megis y Dirwasgiad a Cherddoriaeth Gyfoes. Mewn rhaglen wahanol i'r arfer cafwyd trafodaeth eang ar iaith plant Cymru. O'r Senedd yng Nghaerdydd, mae cyflwynwyr **CF99** yn holi a herio gwleidyddion a chyfranwyr eraill ar faterion gwleidyddol a chyfoes.

Cynhyrchodd tîm **Y Byd ar Bedwar** ddwy ar hugain o raglenni materion cyfoes ar bynciau Cymreig a rhyngwladol. Yn ogystal â'r arlwy o straeon Cymreig fe ymwelodd y gyfres â China a Zimbabwe. ITV Cymru sydd hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu **Hacio**. Eleni, yn ogystal â'r rhaglenni hwyr digidol, mae tîm **Hacio** wedi darparu pedair rhaglen hanner awr ar gyfer y gwasanaeth analog. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd yr etholiadau lleol, llysgenhadon gwyrdd y Cynulliad, y wasgfa ariannol ac ymgyrch arlywyddol yr Unol Daleithiau. Mewn rhaglen arbennig ar **Etholiad America** gan BBC Cymru, teithiodd Dewi Llwyd ar draws taleithiau America, o Cardiff yng Nghaliffornia i Fangor ym Maine i gael blas ar farn a dyheadau'r Americanwyr cyn yr Etholiad Arlywyddol hanesyddol.

## Ffeithiol

Un o ymgyrchoedd pwysicaf S4C yn 2008 oedd yr ymgyrch Werdd gyda nifer o gyfresi a rhaglenni o sawl maes yn cynnig testunau neu elfennau amgylcheddol. Cafodd y cyfresi eu marchnata ar y cyd gyda ffilmiau gwybodaeth byr yn rhoi cyngor ar ail-gylchu ar y sgrin. **Natur Cymru** gydag Iolo Williams oedd y gyntaf a'r mwyaf llwyddiannus o safbwynt y gynulleidfa. Denodd y gyfres gyfartaledd o 88,000 y rhaglen dros yr holl ddarllediadau. Dyma'r gyfres ffeithiol gyntaf hefyd oedd wedi ei hariannu'n llawn gan y Sianel i gael ei chynhyrchu mewn Manylder Uwch. Roedd gwefan hardd a dyfeisgar yn cyd-fynd â'r gyfres. Rhaglen ymgyrchu gyda hiwmor oedd **Popeth yn Wyrdd**, lle datblygwyd fformat

llwyddiannus **Popeth yn Gymraeg** wrth droi at fater yr hinsawdd. Denodd y gyfres hefyd sylw y tu allan i Gymru . Cafodd ei dewis yn rhaglen i'w thrafod yng Nghynhadledd Fyd-eang y Cynhyrchwyr Gwyddoniaeth a Ffeithiol yn Fflorens fel esiampl o gyfres sy'n torri tir newydd ym maes rhaglenni amgylcheddol gan ennill clod mawr. Roedd **Yr Afon** yn gyd-gynhyrchiad rhyngwladol gyda'r fersiynau Cymraeg yn draethodau personol gan chwe chyflwynydd gwahanol yn dilyn chwech o afonydd mawr y byd. Roedd yr ymateb yn y wasg a chan y gwylwyr yn gadarnhaol iawn. Daeth y prosiect Gwyrdd i ben gyda rhaglen ddogfen ar ddyfodol yr hinsawdd, **Dyfroedd Dyfnion,** gan BBC Cymru a rhifyn arbennig o **Pawb a'i Farn** yn gwyntyllu'r cwestiynau caled a gododd o'r amryw gyfresi. Denodd rhaglenni'r Flwyddyn Werdd gyrhaeddiad o bron hanner miliwn ar draws 2008 yn ei chyfanrwydd.

Cafodd cyfres gylchgrawn **Wedi 7** ei hymestyn yn ystod 2008 a chyflwynwyd rhaglen ar nos Wener yn ogystal â nos Lun i nos Iau. Mae'r rhaglen ychwanegol yn rhoi sylw'n bennaf i ddigwyddiadau'r penwythnos gan gryfhau ein hymrwymiad i ddigwyddiadau ledled Cymru. Mae ei chwaer raglen **Wedi 3** wedi hen ennill ei phlwyf yn y prynhawn gyda chynnydd o 33% yn nifer y gynulleidfa ers 2007, gydag apêl ar draws Cymru gyfan. Mae'r rhaglenni hefyd wedi cryfhau eu darpariaeth o'r Gogledd. Bu i dîm y ddwy raglen hefyd gynhyrchu rhaglen ar gyfer Nos Galan, **Wedi 2008,** oedd yn edrych yn ôl ar brif ddigwyddiadau'r flwyddyn yng Nghymru, gyda phanel o arbenigwyr yn dewis yr un mwyaf arwyddocaol.

Mae **O'r Galon** yn parhau i fod yn uchelfan ffeithiol ac yn denu cynulleidfa boblogaidd at amrywiol bynciau. Roedd y rhaglen gyntaf yn draethawd personol gan yr actores a chyflwynydd Ffion Dafis. Roedd yn edrych ar y posibilrwydd ei bod hi wedi etifeddu'r gennyn canser y fron gan ei mam. Denodd y rhaglen 65,000 o wylwyr ar gyfer y dangosiad cyntaf yn unig. Roedd **Bwrw Bol** yn ymwneud â thestun gordewdra, pwnc arall o bwys cyfredol a ddenodd gyrhaeddiad dros 100,000. Roedd rhaglenni a thestunau cryf hefyd yn rhan o **Wynebau Newydd,** yn eu plith **Dringo i'r Eitha'** oedd yn bortread seicolegol o'r dringwr ifanc disglair Ioan Doyle. Ysgogodd un o raglenni **O Flaen dy Lygaid** drafodaeth ar y testun Ydw i'n Gelt? Rhaglenni dogfen unigol eraill oedd **Poncho Mam-gu**, **Jennie**, **Teulu T Glynne** a **Lawrence o Arabia**. Ar ddiwedd y flwyddyn darlledwyd **Lleisiau'r Rhyfel Mawr**, cyfres bedair rhan oedd yn nodi 90 mlwyddiant y Cadoediad yn 1918. Cysylltodd nifer o wylwyr ag S4C trwy'r Wifren (a thrwy lythyr) i ganmol y gyfres hon. Roedd **Y Groes** yn gyfuniad o ffilmiau byr dros wythnos y Pasg, ynghyd â dogfen unigol yn olrhain hanes y groes mewn celfyddyd. Roedd **Côd Cristnogaeth** yn gyd-gynhyrchiad aeth ati i esbonio tarddiad ac ystyr symbolau Cristnogaeth. Yn y cyfnod cyn y Nadolig dangoswyd **Taith y Tad Deiniol**, taith ar drywydd ysbrydol yr eglwys uniongred.

Mae'r arlwy wledig yn allweddol i S4C ac mae **Cefn Gwlad** yn parhau yn un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd. Mae cynulleidfa rhaglen **Ffermio** wedi cynyddu 18% y llynedd o'i gymharu â 2007.

## Diwylliant a Cherddoriaeth

Ar gyfer yr ail gyfres o **Codi Canu** cafodd pumed côr o'r gogledd ei ychwanegu at y pedwar côr oedd eisoes yn bodoli ers y gyfres gyntaf, a'r côr hwnnw, sef Côr y Gogledd, fu'n fuddugol. Gosodwyd nifer o sialensiau i'r corau fel rhan o'r ail gyfres gan gynnwys y Scarlets a'r Gweilch yn cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant, Y Dreigiau a'r Gleision yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Gorawl Gogledd Cymru yn Llandudno, a Chôr y Gogledd yn perfformio ar lwyfan cyngerdd Carolau Llangollen. Roedd hyn yn brofiad arbennig i'r rhan fwyaf o aelodau'r corau ac yn brofiad cwbl newydd i'r rhai nad oedd yn siarad Cymraeg. Cafwyd ffigyrau gwylio uwch ar gyfer y gyfres, cynnydd o 31% ar **Codi Canu** 2007. Roedd y wefan hefyd yn rhan annatod o'r cystadlu gydag adnoddau canu a modd i'r cystadleuwyr ryngweithio. Fe ymwelodd **Dechrau Canu Dechrau Canmol** â nifer o ardaloedd gwahanol gan barhau â'r cyfuniad o ganu cynulleidfaol a pherfformiadau cerddorol o safon gan gantorion adnabyddus fel Rebecca Evans, Elin Manahan Thomas a Katherine Jenkins. Darlledwyd rhaglen o uchafbwyntiau o emynau William Williams, Pantycelyn. Mae'r ffigyrau gwylio wedi bod yn gyson uchel.

Cynhaliwyd **Ysgoloriaeth Bryn Terfel** yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog eleni ac yn wahanol i'r blynyddoedd diweddar, yn lle cyfres o raglenni byrion am y perfformwyr unigol, darlledwyd dwy raglen hanner awr o hyd yn cyfuno tri pherfformiwr ym mhob rhaglen. Daeth hyn â chynnydd i nifer y gwylwyr.

Mae **Carolau o Langollen** yn un o raglenni cerddorol mwyaf poblogaidd arlwy S4C dros y Nadolig bob blwyddyn. Yr artistiaid yn 2008 oedd y tenor rhyngwladol Gwyn Hughes-Jones, y gantores boblogaidd Tara Bethan a'r canwr ifanc Steffan Rhys-Hughes. Ymunodd corau Rhuthun, Bois Ysgol Gerdd Ceredigion a Chôr Cipio'r Cyfle o ardal Llanrwst i greu noson o gerddoriaeth Nadoligaidd amrywiol ac apelgar. Darlledwyd dau gyngerdd a gynhaliwyd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd dros gyfnod y Nadolig sef **Cyngerdd yr C Ffactor** a **Chyngerdd Grav - Yma o hyd** oedd yn deyrnged i'r arwr cenedlaethol Ray Gravell.

Ar Noswyl Nadolig darlledwyd Cyngerdd Gala arbennig o Ganolfan y Mileniwm, Caerdydd i ddathlu pen-blwydd **Ysgol Glanaethwy yn 18 oed**. Cafwyd perfformiadau gan ddoniau ifanc a disglair gyda nifer o'r darnau yn gyfarwydd yn sgîl y gyfres Last Choir Standing. Llwyddodd y pedwar digwyddiad i ddenu cynulleidfaoedd sylweddol ac eang.

Er mwyn cynnal amrywiaeth o gerddoriaeth darlledwyd perfformiad o gynhyrchiad Opera Cenedlaethol Cymru o **Falstaff** Verdi o Ganolfan Y Mileniwm dros y Pasg. Bryn Terfel oedd yn perfformio'r brif ran, gyda Rhys Meirion yn perfformio rhan Fenton. Cafodd y cynhyrchiad ei ganmol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Roedd cyflwynydd newydd i brif raglen celfyddydau S4C **Y Sioe Gelf** yn 2008 sef Lisa Gwilym. Daethpwyd ag eitemau ysgafnach eu naws i'r arlwy, gan gynnwys eitemau wythnosol oedd yn ymweld â bandiau pres ledled Cymru. O'r rhaglenni arbennig ar bynciau unigol sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r gyfres, y rhifyn oedd yn olrhain hanes y llun eiconig **Salem** wrth iddo ddathlu ei ganmlwyddiant oedd y mwyaf poblogaidd. Cafodd y rhaglen gryn ofod hefyd yn y Wasg Gymreig

Er mwyn cynyddu'r sylw ar y Sianel i berfformwyr mwy poblogaidd y sin cerddorol cyfoes Gymraeg, o fandiau gwerinol i roc a phop, cyflwynwyd cyfres newydd sbon **Nodyn** i'r amserlen. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan y gantores boblogaidd Elin Fflur. Yn y gyfres, mae Elin yn teithio ledled Cymru i sgwrsio gydag artistiaid a chyflwyno perfformiadau byw o leoliadau amrywiol. Roedd Steve Eaves, Frizbee, Bryn Fôn, 9Bach, Endaf Emlyn, Celt, Lleuwen Steffan, Geraint Lovgreen, Tebot Piws, Al Lewis, Gwibdaith Hen Frân a Huw Chiswell ymhlith yr artistiaid a fu'n ymddangos yn y gyfres. Bwriad **Nodyn** yw cyflwyno'r cyfan mewn modd mwy hamddenol, poblogaidd a chynhwysol gan fod cynulleidfa rhaglen **Bandit** wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf.

## <u>Ffuglen</u>

Ym mis Ionawr cychwynnodd cyfres ddrama newydd sbon **Teulu**, sy'n dilyn hanes teulu cefnog yn Aberaeron, eu cyfrinachau a'r gwrthdaro. Llwyddodd y gyfres yn unol â'r bwriad i apelio at gynulleidfa eang gyda'r cyfartaledd gwylio i'r gyfres gyntaf yn 67,000 wedi ei agregu. Dod i ben ddechrau'r flwyddyn wnaeth cyfres gyntaf y ddrama gignoeth **Y Pris**. Roedd y ddrama yn ffrwyth dychymyg a llais unigryw'r awdur ifanc o'r cymoedd, Tim Price. Nid oedd y gyfres at ddant bawb, ond roedd yn ddrama heriol a gwahanol. Creuwyd cyffro a thrafodaeth gyda'r gynulleidfa darged o oedolion ifanc a oedd yn falch bod cyfres o'r fath yn ymddangos ar S4C. Daeth yr wythfed gyfres a'r olaf o **Tipyn o Stad** â stori trigolion Maes Menai i ben wedi sawl blwyddyn lwyddiannus. Gwelwyd trydedd gyfres o'r ddrama **Caerdydd** sy'n darlunio bywyd yn y brifddinas. Denodd y gyfres ddiweddaraf 55% yn fwy o wylwyr na'r gyfres gyntaf yn 2006. Un o uchelfannau'r flwyddyn y bu hir ddisgwyl amdani oedd y drydedd a'r olaf o'r gyfres boblogaidd **Con Passionate,** sydd wedi ennill gwobr ryngwladol y Rose D'Or. Mae'n gymysgedd unigryw o realiti a ffantasi, gyda'r dyfeisgarwch a'r gwreiddioldeb yn nodweddiadol o lais yr awdur Siwan Jones. Mae peth siom ymhlith y gwylwyr mai dyma'r gyfres olaf ond mae'r awdur yn datblygu cyfres ddrama newydd i'r Sianel.

Bwriad **2 Dŷ a Ni,** sy'n gyfres ddrama gyfoes am fywyd teulu estynedig yng Nghymoedd y De, oedd apelio at bobl ifanc a thrigolion yr ardal honno. Ni fu'n gwbl lwyddiannus yn cyflawni'r amcanion hyn ond fe ddaeth â sawl talent newydd sbon i'r sgrin ac roedd y wefan ymhlith yr 20 mwyaf poblogaidd yn ystod darllediad y gyfres.

Mae **Pobol y Cwm** yn parhau'n gonglfaen ddyddiol o'n gwasanaeth rhaglenni. Mae'r rhaglen yn ymddangos yn gyson yn ein rhaglenni uchaf ac yn denu gwerthfawrogiad uchel gan y gynulleidfa, uwchlaw rhaglenni cyfatebol Saesneg. Pan holwyd plant a phobl ifanc am gyfres ddrama **Rownd a Rownd**, roedd yr ymateb yn bositif. Roedden nhw'n credu bod y straeon yn gyfoes, yr actio o safon a'i bod yn dangos bywyd bob dydd gyda chymysgedd o bobl hŷn ac ifanc.

Uchelfan y Nadolig ar S4C oedd addasiad Caryl Lewis o'i nofel arobryn **Martha, Jac a Sianco**. Cafwyd perfformiadau pwerus gan Sharon Morgan, Ifan Huw Dafydd a Geraint Lewis yn y prif rannau. Mae'r ymateb i'r ffilm wedi bod yn hynod gadarnhaol gyda nifer yn cysylltu ag S4C i fynegi hyn. Mae'r awdur yn llais gwreiddiol a newydd i'r Sianel eleni.

Bwriad y dramâu unigol a ddarlledwyd yn 2008 oedd rhoi llwyfan i ddatblygu talent newydd ac annog dyfeisgarwch yn nisgyblaethau gwahanol y grefft o greu drama ar gyfer teledu. Roedd yr amrywiol ddramâu unigol yn cynnwys **SOS Galw Gari Tryfan**, **Arwyr**, **Y Rhwyd**, **Omlet** a **Rhestr Nadolig Wil**. Uchafbwynt arall dros y Nadolig oedd y ffilm animeiddiedig newydd o glasur Dylan Thomas **Nadolig Plentyn yng Nghymru**, gyda'r actor Matthew Rhys yn lleisio. Roedd yr arddulliau gwahanol yn y ffilm yn adlewyrchu'r gymysgedd o realiti, ffantasi, cyfoeth geiriau a hiwmor y llyfr.

## Adloniant ac Adloniant Ffeithiol

Yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Datganiad Polisi Rhaglenni 2008, gwnaed ymdrech i gynyddu'r pwyslais ar ddiddanwch trwy gyflwyno cyfresi newydd a datblygu cyfresi poblogaidd. Ar hyd y blynyddoedd un o gyfresi mwyaf poblogaidd S4C yw'r **Noson Lawen**, ac eleni gwnaed ymdrech i'w datblygu. Yn **Hwylio'r Noson Lawen** aed â'r sioe ar daith ar long bleser y Balmoral. Teg dweud na wnaeth yr arbrawf daro deuddeg gyda'r gynulleidfa. Darlledwyd rhifynnau arbennig hefyd o **Noson Lawen** o Ŵyl Tyrfe Tawe, Abertawe ac o chwarel Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog. Er mwyn rhoi llwyfan i rai o artistiaid cerddorol poblogaidd Cymru cafwyd cyfres o **Noson Chis a Meinir**.

Ym maes comedi cafwyd dwy gyfres newydd sef **Sioe PC Leslie Wynne** ac **Ista'n Bwl**. Mae PC Leslie Wynne yn gymeriad sydd wedi ei ddyfeisio, ei berfformio a'i ysgrifennu gan y comedïwr amryddawn Tudur Owen. Mae'r gyfres wedi ennill dilyniant haeddiannol o'r cychwyn cyntaf gyda chyfartaledd o 65,000 wedi ei agregu yn gwylio ac mae'n fwyaf poblogaidd gyda'n gwylwyr yn y gogledd. Tafarn fach leol yn rhywle yn y gogledd yw lleoliad y gyfres ddrama gomedi **Ista'n bwl**. Mae'r rhaglen yn cael ei recordio'r un diwrnod â'r darllediad er mwyn caniatáu i'r cymeriad ymateb i ddigwyddiadau'r dydd yn eu ffyrdd dihafal eu hunain. Roedd ein gwaith ymchwil cynulleidfa wedi dangos fod pobl ifanc yn enwedig eisiau gweld rhagor o raglenni dychanol sy'n gwthio ffiniau.

Yn dilyn poblogrwydd rhaglen **Jonathan** cyn gêmau rygbi rhyngwladol, datblygwyd y cwis sgwrs a hwyl **Bwrw'r Bar** i'r pedwarawd Jonathan Davies, Eleri Siôn, Rowland Phillips a Nigel Owens. Rhaglen gwis yw **0 ond 1**. Mae'r rhaglen yn ffrwyth y cytundebau datblygu gyda fformat gwreiddiol sy'n caniatáu i bobl gystadlu am wyliau. Roedd ymateb ein panel ymchwil i'r cwis yma'n gadarnhaol. Roeddynt yn falch o weld cwis oedd â rheolau hawdd i'w dilyn ac a oedd yn apelio at bobl o bob oed.

Cystadleuaeth rhwng cyd-gogyddion yw **Casa Dudley**. Aeth y drydedd gyfres â ni i Sbaen. Newidiwyd rhywfaint ar drefn y cyfresi blaenorol er mwyn i'r gynulleidfa ddod i adnabod y cystadleuwyr yn well ac i gynnig rhagor o gyngor coginio. Cafodd noson y darllediad cyntaf ei newid i nos Fercher ac arweiniodd hyn at gynnydd o 84% yn nifer y gwylwyr o'i gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae'r wefan gynhwysfawr sy'n rhan o'r gyfres yn un o'n gwefannau mwyaf poblogaidd.

Rhaglen â'i seiliau mewn gwefan yw **Lle Aeth Pawb?** Mae'r gyfres yn ail-greu ffotograffau o'r gorffennol gan ddod â'r cymeriadau yn ôl at ei gilydd mewn proses sy'n hwyliog ac weithiau'n emosiynol iawn. Fe gydiodd y gyfres o'r cychwyn, a denodd gyfartaledd o 66,000 o wylwyr. Dangosodd ein gwaith ymchwil ymateb cadarnhaol dros ben, gyda'r gwylwyr yn nodi eu bod yn hoff o'r amrywiaeth o straeon a'i bod yn rhaglen wahanol a gwreiddiol oedd yn hawdd i'w dilyn. Yn sgîl llwyddiant cyfresi o **Mastermind Cymru**, yn 2008 cafodd cystadleuaeth **Mastermind Plant Cymru** ei ddarlledu yn yr oriau brig ar nos Sul.

Parhaodd y cyfresi ffordd o fyw **Cwpwrdd Dillad**, **04 Wal** a'r **Tŷ Cymreig** yn 2008. Er mwyn dod â newydd-deb i ail gyfres **Y Tŷ Cymreig** penderfynwyd canolbwyntio ar dai nodweddiadol yr hen dair-sir-ar-ddeg yng Nghymru. Gwelwyd y cyflwynydd Aled Samuel, yr arbenigwr Greg Stevenson a'i gydymaith Minti'r ci yn ein harwain o sir i sir gan gyflwyno hanes mewn ffordd ddiddorol ac adloniannol iawn. Cyrhaeddodd nifer y gwylwyr uchafbwynt yn y bumed raglen gyda 115,000 yn mwynhau'r ymweliad â thai Sir Ddinbych.

Dwy gyfres newydd o'r maes adloniant oedd yn rhan o arlwy wyrdd y sianel oedd **Byw yn yr Ardd** a **Cwm Glo Cwm Gwyrdd**. Roedd cryn ddisgwyl am raglen newydd yn ymwneud â garddio ar S4C a chryn bwysau ar y rhaglen o'r herwydd. Nid creu rhaglen arddio arbenigol yn unig oedd y bwriad ond yn hytrach gyfres hwyliog, ddifyr gyda phwyslais ar bobl o bob cwr o Gymru, eu gerddi a ffyrdd o arddio yn wyrdd ac organig. Defnyddiwyd dau gyflwynydd sy'n ymddiddori mewn garddio. Mae Bethan Gwanas yn wyneb cyfarwydd ond roedd Russell Jones o Rosgadfan yn enw newydd. Mae'r ddau, yn ogystal â'r rhaglen, wedi profi'n llwyddiant, gyda 81% o aelodau ein Panel Ymateb yn credu fod iddi deimlad hamddenol a chyfoes a'r mwyafrif helaeth eisiau gweld cyfres arall.

Pobl ifanc y Cymoedd Rhondda, Cynon a Thaf oedd canolbwynt **Cwm Glo Cwm Gwyrdd**. Roedd pedwar o bobl ifanc yr ardal a'u teuluoedd yn ceisio byw bywydau mwy gwyrdd dan arweiniad Iolo Williams fel rhan o'r flwyddyn Werdd.

Dau o uchafbwyntiau adloniannol y Nadolig oedd **Rhydian** ac **Y 7 Magnifico a Matthew Rhys**. I fyd y cowboi draw yn Arizona aeth y 7 Magnifico. Bwriad y rhaglen ddogfen ar seren yr X Factor, Rhydian Roberts oedd apelio at gynulleidfa eang a gwylwyr nad sydd mor gyfarwydd â rhaglenni S4C. Roedd cyrhaeddiad y darllediadau o raglen **Rhydian** yn 151,000, gyda 43,000 o'r rheini yn bobl nad oedd wedi gwylio unrhyw raglen arall ar S4C yr wythnos honno.

## Y Tywydd

Yn dilyn proses dendr allanolwyd y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth **Tywydd** i ITV Cymru, a hon oedd eu blwyddyn lawn gyntaf wrth y llyw. Gyda graffeg newydd i gydblethu â brand S4C, mae'r tîm yn cyflwyno bwletinau o'r stiwdio a lleoliadau y tu allan, gan roi agwedd fwy newyddiadurol i'r gwasanaeth. Cefnogwyd hyn gan wefan Tywydd newydd.

## Gwefan s4c.co.uk a Gwasanaeth Clic

Bu 2008 yn flwyddyn o adeiladu a chyflawni amcanion yn ymwneud â'r we. Mae S4C yn defnyddio'r llwyfan i sicrhau fod ein rhaglenni Cymraeg yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl. Aed ati i wella profiad ar-lein defnyddwyr y wefan trwy ddatblygu'r hafan, cyflwyno peiriant chwilio newydd a hyrwyddo mordwyedd o gwmpas y wefan. Yn 2008 bu cynnydd blwyddyn ar flwyddyn o 182% yn y sesiynau gwylio ar-lein, o'i gymharu â 2007.

Uchafbwynt Mehefin oedd lansio gwasanaeth estynedig **Cyw** i'r plant lleiaf. I gyd-fynd â'r rhaglenni teledu roedd byd newydd lliwgar, cyffrous iddyn nhw ei ddarganfod ar-lein. Erbyn diwedd yr haf roedd 22 o is-wefannau ar gael i blant ymweld â nhw ym myd **Cyw**. Enillodd **Cyw** Wobr BAFTA Cymru 2007 yng nghategori Cyfryngau Newydd: Ffilm neu Deledu.

Bu gwefan 'Gwyrdd' yn gartref i rai o gyfresi amlycaf 2008, gan gynnwys **Natur Cymru**, **Byw yn yr Ardd** a **Popeth yn Wyrdd**. Roedd **Yr Afon** yn uchelfan yn yr amserlen, a chrëwyd gwefan benodol i gyd-fynd â hi.

Datblygwyd gwefan Chwaraeon i adlewyrchu pwysigrwydd y maes yn yr amserlen, gyda gwefannau newydd i **Sgorio**, **Ralïo**, **Golffio** a **Chwa!** yn ogystal â gwybodaeth am rygbi, rasus trotian a rhaglenni chwaraeon i blant fel **Pen Campau** a **Stamina**.

Fel rhan allweddol o ymgyrch Digwyddiadau Haf 08, darparwyd gwefannau cynhwysfawr a rhyngweithiol ar gyfer digwyddiadau pwysicaf Cymru megis Eisteddfod yr Urdd a Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd. Yn ogystal â gwelifo byw ar fwy nag un sianel, roedd gwylwyr yn medru gweld canlyniadau, dyfarniadau a rhaglenni uchafbwyntiau'r dydd.

Ail-lansiwyd gwasanaeth y **Tywydd** ar-lein hefyd, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gadw'r rhagolygon yn gyfredol, a sicrhau gwasanaeth heb ei ail i ddefnyddwyr gwefan S4C.

Ym mis Medi 2008, lansiwyd datblygiad pwysicaf S4C ar-lein, sef S4/Clic, gwasanaeth gwylio rhaglenni diwygiedig i ddatblygu'r ddarpariaeth dal-i-fyny a ddechreuwyd yn 2006. Gellir gwylio mwyafrif rhaglenni S4C yn eu cyfanrwydd am 35 diwrnod, gyda dewis o isdeitlau Saesneg neu Gymraeg, a sain ddisgrifio lle mae hwn ar gael. Adeiladwyd chwaraewr penodol dros yr haf, a chwblhawyd y gwaith mewn pryd i gynnal ymchwil gyda'r cyhoedd.

Erbyn diwedd y flwyddyn, Clic oedd yr adran uchaf ei defnydd ar wahân i Hafan S4C yn y ffigyrau defnydd misol. Cynyddodd yr ymwelwyr i wefan S4C o 38% ym mis Tachwedd a 78% ym mis Rhagfyr 2008, o'u cymharu â'r un misoedd yn 2007. Ym mis Rhagfyr, daeth **Pobol y Cwm** i Clic mewn cydweithrediad â BBC Cymru.

## Dysgwyr

Yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn Strategaeth Cynnwys S4C mae dysgwyr yn rhan bwysig o'r gynulleidfa. Yn 2008 dechreuodd y gwaith o gynyddu gwerth ac apêl S4C i ddysgwyr trwy ddatblygu'r gwasanaethau ar-lein gan sicrhau ei fod yn tyfu i'w llawn botensial. Yn 2008 yn dilyn proses dendr agored, cafodd y gwaith o ddatblygu'r adnodd hwn ei roi i gwmni addysgiadol a chyhoeddi Cymreig, Cwmni Acen, mewn cydweithrediad â Cube Interactive.

## Ymchwil

Yn ystod y flwyddyn defnyddiwyd cyfuniad o ffigyrau gwylio BARB, ymchwil ansoddol gyda phlant ac oedolion a data gwerthfawrogiad i asesu llwyddiant rhaglenni. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil hefyd yn cynorthwyo S4C i lunio'r Datganiad Polisi Rhaglenni ac, yn ogystal, i asesu perfformiad ei gwasanaethau yn yr Adolygiad hwn.

## Gwybodaeth i Wylwyr

Darparwyd gwasanaeth gwybodaeth y Gwifren Gwylwyr (ffôn: 0870 600 4141, drwy'r we: <http://www.s4c.co.uk/c_contact_form.shtml>). Mae'r Wifren yn darparu gwybodaeth am wasanaethau a rhaglenni S4C ac mae'n delio gydag ymholiadau a chwynion a dderbynnir oddi wrth y gwylwyr.

## Llythrennedd yn y Cyfryngau

Mae S4C yn credu fod llythrennedd yn allweddol ym mhob math o gyfryngau er mwyn galluogi pobl i fod yn ddinasyddion cyflawn, gan gymryd rhan lawn mewn cymdeithas ddemocrataidd a sifil. Mae S4C wedi arwyddo Siarter y DU dros Lythrennedd yn y Cyfryngau. Mae ein Cynllun Llythrennedd yn y Cyfryngau yn amlinellu sut yr ydym yn cyflawni'r cyfrifoldebau yr ydym wedi eu derbyn. Rydym yn aelod Rhwydwaith Llythrennedd yn y Cyfryngau, Cymru ac unwaith eto yn 2008 cynhaliwyd cyfarfod agored ym mhafiliwn S4C ar

faes yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn rhannu arfer gorau ymysg addysgwyr a chyrff perthnasol eraill. Cyhoeddwyd taflen wybodaeth ddwyieithog 'Pwyso'r Botwm' (Push the Button) sy'n amlinellu gwasanaethau mynediad megis llun ddisgrifio, arwyddo ac isdeitlo. Trefnwyd holiadur ar-lein ar y wefan er mwyn derbyn sylwadau defnyddwyr am wasanaethau mynediad S4C. Ar y sgrîn lansiwyd ymgyrch er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau sain ddisgrifio a chafwyd ymgyrch farchnata ar gyfer y gwasanaeth gwylio ar-lein, **Clic.**

## Gwasanaethau Mynediad

Isdeitlo
Darparwyd isdeitlau Saesneg i ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer pobl ddi-Gymraeg, y byddar a'r trwm eu clyw. Cafwyd isdeitlau Saesneg ar 86.2% o oriau rhaglenni Cymraeg S4C ar ddigidol yn ystod 2008. Roedd hyn yn llawer uwch na tharged Ofcom o 73% am y flwyddyn. Hefyd, fe ddarlledwyd llawer o'r rhaglenni gydag isdeitlau agored, gan gynnwys rhaglenni megis omnibws **Rownd a Rownd**, **Pobol y Cwm**, a dramâu poblogaidd eraill. Yn ogystal ag isdeitlau ar gyfer rhaglenni S4C, roedd isdeitlau ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw hefyd ar gael ar raglenni Channel 4 a ddarlledwyd ar wasanaeth analog S4C. Cyflawnwyd y targed o 10 awr yr wythnos o isdeitlau Cymraeg ar y gwasanaeth analog ac yn gydamserol ar y gwasanaeth digidol ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw Cymraeg eu hiaith a dysgwyr Cymraeg. Mae'r ffrydiau isdeitlau hefyd ar gael ar wasanaeth S4/Clic ar raglenni sydd i'w derbyn ar alw.

Sain-ddisgrifio ac Arwyddo
Darperir gwasanaeth sain-ddisgrifio ar lawer o raglenni ar S4C digidol ar gyfer y deillion a'r rhannol ddall. Ceir yn y gwasanaeth sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog, i gynnwys disgrifiadau ychwanegol sy'n cyfoethogi mwynhad y gwylwyr. Darparwyd sain-ddisgrifiad ar 10.9% o raglenni ar S4C digidol yn erbyn targed Ofcom o 10% am y flwyddyn. Mae rhai rhaglenni ar S4C digidol yn cael eu dangos gydag arwyddwr BSL (British Sign Language). Darlledir y rhaglenni hyn fel arfer ar ddydd Sadwrn gyda 3.1% o'r gwasanaeth gydag arwyddion agored yn erbyn targed Ofcom o 3% yn 2008. Dangosir y rhaglenni yma hefyd ar Clic.

## Apêl S4C

Yn 2007 gwnaed penderfyniad i ail gyfeirio'r apêl er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-redeg â blaenoriaethau rhaglenni'r Sianel. Penderfynwyd y dylai fod yn fodd i gynorthwyo clybiau, cymdeithasau, unigolion ac elusennau i ddyrchafu proffil eu gweithgareddau, ac i'w cynorthwyo nhw i gynnal eu digwyddiadau a chodi arian eu hunain. Felly yn 2008 penderfynwyd cynorthwyo prosiectau oedd yn ymwneud â materion Gwyrdd. Cefnogwyd cynlluniau penodol gan gynnwys coedwig wyllt newydd Ysgol Gynradd Llanbedr Pont Steffan. Cefnogwyd stondin Cynnal Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol trwy gyfrwng gweithgareddau yng nghwmni criw **Cyw** a **Planed Plant**. Ond teg dweud mai prin oedd y ceisiadau am gymorth ac rydym yn ystyried ffyrdd i addasu ein cynlluniau yn 2009.

## Tendrau

Yn unol â Pholisi Tendro S4C cynhaliwyd prosesau tendr ar gyfer y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Cynnwys Rhaglenni
Pencampwriaeth Rygbi'r Byd Dan 20 oed yr IRB
Cynhyrchu darpariaeth S4C o daith tîm rygbi Cymru i Dde Affrica
Cynhyrchu Dolenni Cyflwyno ar gyfer Darpariaeth Plant Meithrin S4C
Darpariaeth S4C o Bêl-droed
Darpariaeth S4C o Golff
Cwpan Heineken
Darpariaeth Cân i Gymru

Eraill
Dysgwyr

**Hyfforddiant a Thalent**

Darparwyd hyfforddiant i staff S4C yn unol â blaenoriaethau strategol y busnes. Sicrhawyd trefniadau addas i godi lefel sgiliau'r diwydiant drwy fuddsoddi mewn cynlluniau hyfforddiant drwy Cyfle a darparwyr hyfforddi eraill. Mae Fframwaith Hyfforddi Skillset Cymru yn weithredol a'r blaenoriaethau ar gyfer y sector yn cael eu trafod a'u cytuno ar y cyd, er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn unol â gofynion y sector gyfan.

Ysgoloriaethau
Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd ysgoloriaethau S4C i'r canlynol:
Owen Powell - ôl-gynhyrchu Sain, NFTS;
Llŷr Williams – ysgoloriaeth arbennig;
Lianne Clarke, Brigid Eades, David Guest a Non Stanford – athletau;
Ross Mclister ac Amy Boulden – golff;
Cemlyn Davies a Steffan Powell – ysgoloriaethau newyddiaduraeth.